

Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Canllaw Arddull yr Adran

Mae'r canllaw arddull hwn i'w ddefnyddio ar gyfer yr holl aseiniadau israddedig a gyflwynir yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, oni bai bod cydlynnydd eich modiwl yn rhoi cyfarwyddyd penodol i chi fel arall. Rhoddir amlinelliad cryno o'r ffordd i fformatio aseiniadau ysgrifenedig, eglurhad o'r hyn yw cyfeirnod i a pham ei fod yn bwysig, a diffiniad cryno o lèn-ladrad a sut i'w osgoi, a chyflwyniad i system Harvard (awdur-dyddiad) o gyfeirnod.

1. Sut ddylwn i fformatio aseiniadau ysgrifenedig?

Yn ystod eich astudiaethau fe ofynnir i chi gwblhau amrywiaeth o aseiniadau ysgrifenedig gan gynnwys traethodau, portffolios, dehongliadau testunol a beirniadol a llyfrau nodiadau. Bydd y cyfarwyddiadau ar gyfer y rhain yn amrywio a dylech gadw atynt yn ofalus.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae yna gonfensiynau fformatio sylfaenol y dylech eu dilyn wrth gyflwyno gwaith ysgrifenedig:

- Rhaid i bob aseiniad ysgrifenedig gael ei baratoi ar brosesydd geiriau, oni bai eich bod yn cael cyfarwyddyd fel arall gan Gydlynnydd y Modiwl neu bod gofynion asesu'r modiwl yn mynnu hynny.
- Er mwyn gwneud y gwaith yn hawdd i'w ddarllen, dylid cyflwyno pob aseiniadau mewn ffont 12 pwynt, gyda'r llinellau wedi'u gosod gyda gofod dwbl.
- Dylid rhifo'r tudalennau yn olynol mewn rhifau Arabaidd (1, 2, 3, ac ati) yng nghornel isaf dde y papur.
- Rhaid i bob aseiniad gael ei gyfeirnod yn llawn (gweler isod).
- Dylid nodi pob dyfyniad o fewn dyfynodau sengl.
- Yn achos dyfyniadau hirach sydd dros 50 gair, cyflwynwch y dyfyniad fel paragraff ar ei ben ei hun, a'i wahanu oddi wrth y prif destun. Nid oes angen dyfynodau yn yr achos hwn.
- Mewn teitlau dylid rhoi llythyren gyntaf y gair cyntaf yn brif lythyren, yn ogystal â'r prif eiriau gan gynnwys enwau ac ansoddeiriau priod (e.e. *Jurassic Park*, *Breuddwyd Nos Wyl Ifan*, *Newyddion Deg*).
- Rhowch deitlau llyfrau a gyhoeddwyd, dramâu, cerddi, ffilmiau, cyfnodolion a gweithiau clasurol mewn teip italg (e.e. *Citizen Kane*, *Macbeth*).
- Defnydd *cynnil* ddylid ei wneud o italeiddio geiriau, ymadroddion neu frawddegau er mwyn *pwysleisio*. Mae'r un peth yn wir am danlinellu neu destun **trwm**, neu ddefnyddio ebychnodau!!!

2. Beth yw cyfeirnod?

Dull o gydnabod y ffordd y mae syniadau pobl eraill wedi dylanwadu ar eich gwaith eich hun yw cyfeirnod. Mae hefyd yn ddull o gyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n sail i'ch dealltwriaeth neu'ch dehongliad. Mae cyfeirnod'n bwysig gan ei fod yn caniatáu i'ch darlennydd olrhain y ffynonellau a ddefnyddioch yn hawdd, ac i werthuso'r ffordd yr ydych wedi eu defnyddio. Hefyd, mae cyfeirnod'n cynyddu eich hygyrdd ac awdurdod eich gwaith, trwy ddangos eich bod wedi treulio amser yn ymchwilio'n ofalus i'ch pwnc ac wedi ymgynghori â gwaith eraill. Yn y pen draw, gall cyfeirnod da gryfhau eich marciau, a gall hefyd fod yn gymorth i osgoi cael eich cyhuddo o lôn-ladrad.

3. Beth yw llôn-ladrad?

Diffiniad Prifysgol Aberystwyth o lôn-ladrad yw 'y weithred o ddefnyddio gwaith rhywun arall gyda'r bwriad o dwyllo.' (Gallwch ddarllen Rheoliad ynghylch Ymddygiad Academaidd Annerbyniol Prifysgol Aberystwyth yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/uap/>). Mae llôn-ladrad yn ffurf o ymddygiad annheg neu dwyllo. Y mae'n cynnwys copïo gwaith pobl eraill yn uniongyrchol heb ddefnyddio dyfynodau neu heb ddarparu cyfeirnod, aralleirio (ail-ysgrifennu syniadau rhywun arall yn eich geiriau eich hun) heb gydnabod hynny, neu gyfuno eich geiriau eich hun â geiriau rhywun arall. Mae'r cosbau am lôn-ladrad ac ymddygiad annheg yn drwm, a gall cyfeirnod gwaeth arwain at gyhuddiadau o lôn-ladrad. Wrth wneud ymchwil ar gyfer aseiniadau, gall yr awgrymiadau canlynol eich helpu i osgoi llôn-ladrad:

- Rhowch ddigon o amser i chi eich hun i allu ymchwilio ac ysgrifennu eich aseiniadau.
- Chwiliwch am gymorth yn gynnar os ydych yn ei chael yn anodd i ddeall pwnc yr aseiniad.
- Wrth ymchwilio i aseiniad nodwch fanylion llawn unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwch (gyda ffynonellau rhyngwyd, rhaid cynnwys yr URL a'r dyddiad cyrchwyd y dudalen).
- Dylech bob amser gymryd nodiadau yn eich geiriau eich hun.
- Yn eich nodiadau, defnyddiwch ddyfynodau er mwyn sicrhau eich bod yn gallu gwahaniaethu'n eglur rhwng eich nodiadau â gwaith eraill.

4. Defnyddio dull cyfeirnod Harvard (awdur-dyddiad)

Y mae system Harvard (awdur-dyddiad) yn un hawdd i'w ddefnyddio ac wedi ei seilio ar ddarparu gwybodaeth gyfeiriadol yng nghorff y testun ac mewn rhestr ar ddiwedd eich aseiniad. Mae'n bwysig eich bod bob amser yn cynnwys cydnabyddiaethau yn y testun ac mewn rhestr gyfeirnod. Nid yw system Harvard (awdur-dyddiad) yn defnyddio troednodiadau na nodiadau terfyn.

Cyfeiriadau

Mae cyfeiriad yn ffordd i ddangos i'ch darlennydd eich bod wedi gwneud defnydd o ffynhonnell arall. Mae angen gwneud defnydd o gyfeiriad pan rydych yn **dyfynnu**, **aralleirio** neu'n **crynhoi** unrhyw ffynhonnell. **Dyfyniad** yw pan ddefnyddir yr union eiriau o'r ffynhonnell, wedi'i nodi gan ddefnyddio dyfynodau. **Aralleiriad** yw pan ddefnyddir darn o ffynhonnell, ond wedi'i gyflwyno yn eich geiriau eich hun. Mae **crynhoi** yn golygu eich bod wedi cymryd syniadau o ffynhonnell arall, a gan ddefnyddio eich geiriau eich hun wedi cyfeirio ar y prif bwyntiau yn unig. Trwy ddefnyddio cyfeiriad, a thrwy gynnwys llyfryddiaeth, rhoddir i'r darlennydd yr holl wybodaeth er mwyn gallu gwirio unrhyw ffynhonnell a ddefnyddir yn eich gwaith. Wrth ddefnyddio system Harvard (awdur-dyddiad) rydych bob amser yn cynnwys **enw'r awdur**, **blwyddyn cyhoeddi** a **rhif y dudalen** os ydych yn aralleirio neu'n dyfynnu o'r testun. Cynhwysir hyn yng nghorff eich testun mewn cromfachau crwn ac fe'u gelwir yn gyfeiriad. Dyma enghraifft o gyfeiriad:

'The primacy of Aristotle's *Poetics* in theatrical theory as well as in literary theory is unchallenged.' (Carlson, 1993, t.15)

Gall union ffurf y cyfeiriad amrywio gan ddibynnu ar ei gyd-destun, ac y mae'r enghraifft ganlynol yn dangos cyfeiriad gwahanol, ond sydd yn dal yn gywir:

Yn ôl Marvin Carlson (1993), 'The primacy of Aristotle's *Poetics* in theatrical theory as well as in literary theory is unchallenged.' (t.15)

Yma caiff enw'r awdur ei grybwyll yn y frawddeg ac felly nid oes angen ei gynnwys mewn cromfachau unwaith eto. Mae blwyddyn cyhoeddi yn dilyn enw'r awdur, ond mae rhif y tudalen yn cael ei gynnwys ar ôl y dyfyniad. Byddai angen cyfeiriad tebyg pe byddech i aralleirio datganiad Carlson yn hytrach na'i ddyfynnu'n uniongyrchol:

Yn ôl Marvin Carlson (1993) mae i *Poetics* Aristotle bwysigrwydd canolog ym maes damcaniaeth theatrig. (p.15)

Os oes gan y ffynhonnell ddau/ddwy awdur, dylech gynnwys y ddau enw, neu os oes mwy na thri awdur, yna cyfeiriwch at y cyntaf a'i ddilyn gan 'et al' (talfyriad Lladin yw hwn sy'n golygu 'ac eraill'):

'A really good writer is always thinking, using ideas and facts from sources to shape and inform an argument.' (Williams a Carroll, 2009, t. 25)

'Writing about an event in the past always involves constructing a version of it.' (Zarrilli, et al, t.xxii).

Weithiau, fe welwch fod awdur yn dyfynnu gwaith awdur arall a'ch bod yn dymuno dyfynnu'r gwreiddiol. Os nad yw'n bosib dod o hyd i waith yr awdur gwreiddiol, yna gwnewch yn glir nad ydych wedi darllen y gwreiddiol, fel yn yr enghraifft isod:

Ceisio Peter Brook 'to articulate a universal art'. (Lamont 1987, t. 6 cyfeiriwyd ato yn Carlson, 1993, t. 517)

Mewn rhai achosion ni fyddwch yn gallu lleoli'r holl wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am ffynhonnell. Er enghraifft, efallai na restrir awdur, neu flwyddyn cyhoeddi, neu efallai na fydd rhifau tudalennau. Os nad oes awdur, yna defnyddiwch y cwmni sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r ffynhonnell:

(British Broadcasting Corporation, 2003, t. 20)

Os nad oes cwmni, defnyddiwch deitl y ffynhonnell:

(*Trends in Film Distribution*, 1994, t. 77)

Os nad oes dyddiad yna nodwch 'd.d.' (dim dyddiad) lle byddech fel arfer yn cynnwys dyddiad cyhoeddi.

(Jones, d.d., t. 56)

Yn olaf, efallai y gwelwch hefyd eich bod yn dymuno cynnwys dwy ffynhonnell sydd â'r un awdur a'r un flwyddyn cyhoeddi. I osgoi drysu'ch darlennydd, gallwch ddefnyddio llythrennau fach yn nhrefn y wyddor er mwyn gwahaniaethu rhwng y ffynonellau:

Yn ei hastudiaeth o ffilmiau cynnar Lynch, mae Jones (2003a, tt. 7-10) yn dadlau o blaid y dehongliad hwn. Serch hynny, mae hi hefyd yn cyfaddef (Jones 2003b, t. 63) bod astudiaethau eraill ...

Rhestrau Cyfeiriadau a Llyfryddiaethau

Yn system Harvard (awdur-dyddiad), bydd y cyfeiriadau yn y testun bob amser yn cysylltu â rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth ar ddiwedd eich aseiniad lle byddwch yn darparu manylion cyhoeddi llawn ar gyfer pob un o'ch ffynonellau. Y gwahaniaeth rhwng rhestr cyfeiriadau a llyfryddiaeth yw bod rhestr cyfeiriadau yn cynnwys y ffynonellau **y cyfeiriwch atynt yn eich gwaith yn unig**. Mae llyfryddiaeth yn cynnwys yr **holl ffynonellau yr ydych wedi ymgynghori â hwy** yn y broses ymchwil, hyd yn oed os nad ydych wedi cyfeirio atynt yn uniongyrchol yn eich aseiniad terfynol. Yn gyffredinol dylech baratoi rhestr gyfeiriadau oni bai eich bod wedi cael cyfarwyddyd fel arall gan gydlynnydd eich modiwl.

Yr egwyddor gyffredinol y tu ôl i'r rhestr gyfeiriadau yw y dylai gynorthwyo'r darlennydd i leoli'r ffynonellau gwreiddiol yn hawdd trwy ddarparu'r manylion llyfryddiaethol llawn ar gyfer bob ffynhonnell. Felly, dylai pob cyfeiriad yn y testun gysylltu â'ch rhestr gyfeiriadau. I wneud hyn, dylai'r rhestr cyfeiriadau gael ei threfnu yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw'r awdur (neu'r cwmni neu deitl y gwaith os nad oes awdur wedi ei restru). Dylai'r flwyddyn cyhoeddi bob amser gael ei chynnwys mewn cromfachau crwn ar ôl enw'r awdur. Er enghraifft, pe byddai eich darlennydd yn gweld y dyfyniad canlynol ynghyd â'r cyfeiriad ym mhrif destun yr aseiniad:

'Quotations should be relevant to your argument and used judiciously in your text.' (Pears a Shields, 2010, t. 6)

Yna yn eich rhestr cyfeiriadaeth neu eich llyfryddiaeth dylent allu dod o hyd i fanylion llyfryddiaethol llawn drwy chwilio am enwau'r awduron a blwyddyn cyhoeddi:

Pears. R. a Shields, G. (2010) *Cite them right: The essential referencing guide*. 8^{fed} arg. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

5. Enghreifftiau o ddull cyfeirio Harvard (awdur-dyddiad)

Efallai bod yna amrywiaeth eang o ffynonellau y byddech yn dymuno cyfeirio atynt, sydd y tu hwnt i lyfrau wedi eu hargraffu, o erthyglau mewn cyfnodolion a phapurau newydd, i berfformiadau byw, recordiadau ffilm, gwefannau a negeseuon rhwydweithio cymdeithasol. Isod ceir rhestr o'r mathau cyffredin o ffynonellau y gallech gyfeirio atynt wrth ysgrifennu aseiniadau.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac efallai y byddwch angen defnyddio ffynhonnell nad yw wedi'i chynnwys isod. Yr egwyddor allweddol yw y dylech fod yn gyson wrth ddefnyddio'r dull hwn o gyfeirnoddi i'ch amgylchiadau penodol chi. Gallwch hefyd ofyn i gydlynnydd y modiwl neu'r tiwtor am gyngor, ac ymgynghori â'r ffynonellau ychwanegol a restrir ar ddiwedd y canllaw hwn o dan y pennawd 'Gwybodaeth Bellach'.

Llyfrau

Awdur(on) (blwyddyn) *Teitl*. Argraffiad – os nad y 1^{af}. Man cyhoeddi: Cyhoeddwr.

Llyfrau un awdur

Neville, C. (2007) *The Complete Guide to Referencing and Avoiding Plagiarism*. Maidenhead: Open University Press.

Llyfrau dau neu dri awdur

Pears, R. a Shields, G. (2010) *Cite them right: The essential referencing guide*. 8^{fed} arg. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Llyfrau mwy na thri awdur

Zarilli, P. et al. (2006) *Theatre Histories: An Introduction*. Arg.diw. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge.

Llyfrau wedi eu golygu

Herman, D. (gol.) (2007) *The Cambridge Companion to Narrative*. Caergrawnt, Cambridge University Press.

Llyfrau wedi eu golygu gan ddau neu dri golygydd

Crowley, D. a Heyer P. (goln.) (1995) *Communication in History: Technology, Culture, Society*. 2^{il} gol. White Plains, Efrog Newydd: Longman.

Penodau mewn llyfrau a olygwyd

Slater, D. (1997) 'Consumer Culture and the Politics of Need', yn Nava, M. et al. (goln.) *Buy this Book: Studies in Advertising and Consumption*. Llundain: Routledge, tt. 51-63.

Llyfrau a gyfieithwyd

Barthes, R. (1957) *Mythologies*. Cyfieithwyd gan Annette Lavers. Llundain: Cape.

Blodeugerddi

Worthen, W. (2003) *The Wadsworth Anthology of Drama*. 4^{ydd} arg. Llundain: Wadsworth Cengage Learning.

E-lyfrau

Benedetti, J. (2004) *Stanislavski: An Introduction*. NetLibrary [Arlein]. I'w weld ar: <http://www.netLibrary.com> (Darllenwyd: 14 Awst 2019).

Erthyglau mewn Cyfnodolion

Awdur(on) (Blwyddyn) 'Teitl yr Erthygl', *Teitl y Cyfnodolyn*, Cyf. rhif (Rhan/Rhifyn/Mis), Tudalennau, defnyddiwch t. neu tt.

Erthyglau Cyfnodolion Argraffedig

Leitch, T. M. (1990) 'Twice-Told Tales: the Rhetoric of the Remake', *Literature-Film Quarterly*, 1(3), tt. 138-49.

Erthyglau Cyfnodolion mewn Casgliadau Ar-lein

Scarpetta, G. a Dolan, J. (1984) 'Richard Foreman's Scenography: Examples from His Work in France', *The Drama Review: TDR*, 28(2), tt. 23-31, *JSTOR* [Arlein]. I'w weld ar: <http://www.jstor.org/stable/1145575> (Darllenwyd: 23 Gorffennaf 2011).

E-Gyfnodolion

Soffer, O. (2008) 'The eraser and the anti-eraser: the battle over colour television in Israel', *Media, Culture & Society*, 30(6), tt. 759-775 [Arlein]. I'w weld ar: <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/0163443708096092> (Darllenwyd: 17 Awst 2019).

Erthyglau Papur newydd

Awdur(on) (Blwyddyn) 'Teitl yr Erthygl'. *Teitl y Papur newyddion*, Diwrnod a Mis (talfyrru), Tudalennau, defnyddiwch t. neu tt.

Erthyglau Papur newydd

Davies, L. (2011) 'European farmers expected to flout ban on battery hen cages'. *The Guardian*, 1 Medi, t. 7.

Erthyglau Papur newydd ar-lein

Davies, L. (2011) 'European farmers expected to flout ban on battery hen cages'. *The Guardian*, 31 Awst [Arlein]. I'w weld ar: <http://www.guardian.co.uk/environment/2011/aug/31/farmers-flout-battery-hen-ban> (Darllenwyd: 2 Medi 2011).

Erthyglau NEXIS UK

Johnson, R. (2013) AT THE MOVIES; A unique view; Stan Brakhage melded a variety of styles to create films that were a visual eyeful yet still emotionally delicate'. *Los Angeles Times*, 17 January [Nexis UK, Arlein]. I'w weld ar: <https://advance.lexis.com/api/permalink/af6ddd63-e69e-4e5f-9323-3bafa95de227/?context=1519360> (Darllenwyd: 1 Hydref 2019).

Y Rhyngrwyd

Awdur(on) (Blwyddyn y cyhoeddwyd y safle/y cafodd ei diweddaru ddiwethaf) 'Teitl y dudalen', *Teitl y safle*. I'w weld ar: URL (Darllenwyd: dyddiad).

Gweddalennau

ERIAL Project. (2011) *Ethnographic Research in Illinois Academic Libraries* [Arlein]. I'w weld ar: <http://www.erialproject.org/> (Darllenwyd: 1 Medi).

Blogiau

Managh, G. (2011) 'Urban Hurricane', *Bldg Blog*, 27 Awst [Arlein]. I'w weld ar: <http://bldgblog.blogspot.com/2011/08/urban-hurricane.html> (Darllenwyd: 28 Awst 2011).

Wikis

'Rudolph von Laban' (2011) *Wikipedia* [Arlein]. I'w weld ar: http://en.wikipedia.org/wiki/Rudolf_von_Laban (Darllenwyd: 18 Awst 2011).

Gwefannau Rhwydweithio Cymdeithasol

Rebellato, D. (2011) 'Dan Rebellato', *Twitter*, 31 Awst [Arlein]. I'w weld ar: <http://twitter.com/#!/DanRebellato> (Darllenwyd: 2 Medi 2011).

YouTube

Robag88 (2011) *Film psychology THE SHINING spatial awareness and set design 1 of 2* [Arlein]. I'w weld ar: <http://www.youtube.com/watch?v=0sUIxXCCFWw> (Gwylwyd: 25 Gorffennaf 2011).

Reddit

Attenborough, David. (2014) 'I am Sir David Attenborough, I'm on reddit, AMA. [Reddit](#)'. [Arlein] (Darllenwyd: 27 Chwefror 2019).

Clyweledol

Rhaglenni teledu

Torchwood (2011) Teledu BBC 1, 1 Medi

Rhaglenni teledu a wylwyd ar-lein

'Let's Kill Hitler' (2011) *Doctor Who*, Cyfres 6, Rhaglen 8, 27 Awst [Ar lein]. I'w gweld ar: <http://www.bbc.co.uk/iplayer/> (Gwylwyd: 29 Awst).

Rhaglenni/cyfresi teledu ar DVD/Blu-ray

'Two Cathedrals' (2006) *The West Wing*, Cyfres 2, Rhaglen 22. Cyfarwyddwyd gan Thomas Schlamme. Ysgrifennwyd gan Aaron Sorkin. Darlledwyd gyntaf 2001 [DVD]. California: Warner Home Video.

Box of Broadcasts

The Naked Civil Servant, (2008) BBC4, 80 mun [Ar lein]. I'w gweld ar: <https://learningonscreen.ac.uk/ondemand/> (Gwylwyd: 22 Hydref 2019)

Ffilmiau

Citizen Kane (1942) Cyfarwyddwyd gan Orson Wells [Ffilm]. California: RKO.

Ffilmiau ar DVD/Blu-ray

Citizen Kane (2004) Cyfarwyddwyd gan Orson Wells [DVD]. California: Universal Pictures.

Recordiad Sain

'Stuck in the middle with you' (1972), ar *Stealers Wheel*, [CD], A&M Records, Llundain. Ysgrifennwyd gan Gerry Rafferty a Joe Egan a pherfformiwyd gan by Stealers Wheel.

Recordiad Sain Ar Lein

Radio Wales. 2005. *Conversation in Tregaron about accent, dialect and attitudes to language*. [Recordiad sain]. [Gwrandawyd: 15 June 2019]. I'w glywed ar: <http://sounds.bl.uk/>

Podlediad

Hooper, R. (2019) 'How the media sells us gender equality' *The Media Show* [Podlediad]. 19 Mehefin. I'w glywed ar: <https://www.bbc.co.uk/programmes/m000610x> (Gwrandawyd: 12 Medi 2019).

Perfformiadau Byw

Dramau

Romeo and Juliet gan William Shakespeare (2011) Cyfarwyddwyd gan Marcus Romer a Katie Posner [Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth. 19 Tachwedd].

Perfformiadau

Corrieri, A. (2010) *Musical Pieces/Quartet (for Anna Akhmatova)* [Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth. 22 Hydref].

Gosodiadau neu Arddangosfeydd Celf

Boursier-Mougenot, C. (2010) *New commission for The Curve* [Canolfan y Barbican, Llundain. 22 Mai].

Darlithoedd a Nodiadau Darlith

Darlithoedd

Rabey, D. (2018) *Audience: Shakespeare's Theatre* [Darlith i TP10120]. 19 Hydref.

Nodiadau Darlith ar Blackboard

Filmer, A. (2018) 'Wythnos 2: Cultural and Theatrical Competence'. *Analyzing Performance* [Arlein]. Ar gael ar: <http://blackboard.aber.ac.uk> (Darllenwyd: 17 Chwefror 2018).

6. Rhagor o Wybodaeth

Os oes arnoch chi angen rhagor o gymorth, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chyfeirnoddi eich gwaith dylech yn gyntaf ofyn i'r aelod staff yr ydych yn ysgrifennu ar ei ch/gyfer. Mae'r tab 'SgiliauAber' ar Bwrdd Du hefyd yn cynnwys adnoddau defnyddiol. Cyfeiriwyd at y ffynonellau argraffedig ac ar-lein isod wrth baratoi'r canllaw hwn, a gellir eu hargymell yn fawr. Cofiwch y gall y ffynonellau hyn wahaniaethu o'r arddull a fabwysiedir yn y canllaw hwn, ac mewn achos o'r fath rhaid mabwysiadu'r arddull a amlinellir yn y canllaw hwn. Mae'r holl llyfrau a restrir isod i'w cael yn Llyfrgell Hugh Owen, yn y 'Casgliad Astudio Effeithio' ar Lawr F.

Pears, R. and Shields, G. (2010) *Cite them right: The essential referencing guide*. 8^{fed} arg. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Neville, C. (2007) *The Complete Guide to Referencing and Avoiding Plagiarism*. Maidenhead: Gwasg y Brifysgol Agored.

Williams, K. a Carroll, J. (2009) *Referencing and Understanding Plagiarism*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Holland, M. (2006) *BU guide to Citation in the Harvard Style* [Arlein]. I'w weld ar: <https://libguides.bournemouth.ac.uk/bu-referencing-harvard-style/pdf-guide> [Darllenwyd: 1 Medi 2019].

Prifysgol De MontFort (2009) *The Harvard System of Referencing* [Online]. I'w weld ar: <https://www.dmu.ac.uk/documents/about-dmu-documents/partnerships/educational-partnerships/the-harvard-system-of-referencing.pdf> [Darllenwyd: 31 Awst 2019].

Swinburne University of Technology (2019) *Harvard Style Guide* [Online]. I'w weld ar: <https://www.swinburne.edu.au/library/referencing/harvard-style-guide/> [Darllenwyd: 30 Awst 2019].

Dr Andrew Filmer a Dr Stephanie Jones
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
Prifysgol Aberystwyth
Hydref 2019